# Datganiad o ddiben
## 2023/24

Calon Cymru Fostering

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Swyddfeydd Cofrestredig 4

Siart o'r Sefydliad 5

Rheoli'r Gwasanaeth 6

Safonau Gofal a Chymorth 7

Gwasanaethau a Ddarperir 8

Y Broses Baru 9

Cyflenwi Gwasanaethau 10

Amrywiaeth a Chynhwysiant 12

Cyfranogiad 12

Iaith a Chyfathrebu 13

# Cyflwyniad

**Datblygwyd y Datganiad o Ddiben hwn yn unol â chyfraith a rheoliadau statud priodol, gan gynnwys:**

- Canllawiau a Rheoliadau Deddf Plant 1989 Cyfrol 4.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol) (Cymru) 2019.
- Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a swyddogaethau) (Cymru) 2018.

**Ei nod yw rhoi gwybodaeth i blant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr, staff a gweithwyr proffesiynol eraill am yr asiantaeth a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarparwn, gan gynnwys:**

- Manylion am nodau ac amcanion Calon Cymru Fostering.
- Gwybodaeth am y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir gan Calon Cymru Fostering.

**Mae copi o'r datganiad ar gael, ar gais, i'r canlynol:**

- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- Awdurdodau Lleol y gwasanaeth.
- Unrhyw berson sy'n gweithio i'r gwasanaeth maethu (Calon Cymru Fostering) neu gyda'r gwasanaeth hwn.
- Unrhyw blentyn (yn amodol ar oed a dealltwriaeth) sy'n cael ei leoli gyda'r gwasanaeth maethu.
- Unrhyw riant neu warcheidwad i unrhyw blentyn sy'n cael ei leoli gyda'r gwasanaeth maethu.
- Darperir canllawiau croeso i blant a phobl ifanc hefyd, sy'n briodol i'w hoed ac sydd ar ffurf fwy addas iddynt eu deall.

Adolygir y Datganiad o Ddiben hwn o leiaf bob blwyddyn gan yr Uwch Dîm Rheoli.

Dyddiad adolygu: Hydref 2024

# Swyddfeydd Cofrestredig

**Mae Calon Cymru yn asiantaeth faethu sydd wedi'i lleoli yng Nghymru. Mae'r prif swyddfa yng Nghaerdydd ac mae swyddfa arall yng Nghaerfyrddin. Mae ein gofalwyr maeth wedi'u lleoli yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol ar hyd de-ddwyrain a de-orllewin Cymru..**

**Calon Cymru Fostering Registered Office:**

Pathway Care Ltd
4 Jardine House
Harrovian Business Village
Bessborough Road
Harrow
England
HA1 3EX


**Calon Cymru Fostering Primary Branch:**

12 Lambourne Crescent
Cardiff Business Park
Llanishen
Cardiff
CF14 5GF

**Calon Cymru Fostering Regional Office:**

Suite 6
Ty Myrddin
Old Station Road
Camarthen
SA31 1LP

# Siart o'r **Sefydliad**



# Rheoli'r Gwasanaeth

Sharon Cavaliere, y **Cyfarwyddwr Rhanbarthol** (Unigolyn Cyfrifol) sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gydymffurfedd, diogelwch a rhediad esmwyth yr asiantaeth. Mae hyn yn cynnwys ystyried llywodraethu, cyllideb, staffio a chynllunio strategol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr asiantaeth yn gweithio yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau statudol. Yn bwysicach fyth, mae gan yr Unigolyn Cyfrifol gyfrifoldeb dros ddatblygu diwylliant cyffredinol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Claire Stonier, y **Cyfarwyddwr** (Rheolwr Penodedig), sy'n gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd o fewn y sefydliad, sy'n cynnwys cymorth i blant a phobl ifanc, gofalwyr maeth, a gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol. Y Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol hefyd am sicrhau cydymffurfedd reoleiddiol ac am edrych ar ffyrdd arloesol o wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Y Cyfarwyddwr sy'n chwarae'r rôl allweddol o ran diogelu. Mae Claire yn cael ei chefnogi gan ei rheolwr llinell, y Cyfarwyddwr Rhanbarthol i ddarparu cymorth mentora un-i-un.

Mae gan Sharon a Claire brofiad sylweddol mewn gwaith cymdeithasol o fewn y sectorau statudol ac annibynnol. Mae'r ddwy yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig sydd wedi gweithio yn y maes diogelu a maethu ers blynyddoedd lawer, naill ai mewn rolau uwch reoli, ymarfer neu ddatblygu. Mae ganddynt ystod o gymwysterau gan gynnwys MA, BA, DipSW ac MSc mewn Ymarfer Proffesiynol (Arweinyddiaeth).

Mae'r **Tîm Rheoli** yn cynnwys yr Unigolyn Cyfrifol, y Cyfarwyddwr, Rheolwyr Gweithrediadau, Dirprwy Reolwyr Gweithrediadau, y Rheolwr Recriwtio, y Rheolwr Sicrhau Ansawdd, y Rheolwr Dysgu a Datblygu, y Rheolwr Swyddfa a'r Rheolwr Lleoliadau.

Mae'r **Tîm Rheoli** yn cyfarfod yn fisol. Y diben yw darparu cyfeiriad strategol cyffredinol i'r sefydliad. Mae'r Tîm Rheoli hefyd yn mynychu cyfarfodydd ymarfer a datblygu gwaith cymdeithasol.

Mae gan yr asiantaeth **Fwrdd Diogelu** i sicrhau bod y diwylliant diogelu ar draws y sefydliad yn dilyn canllawiau deddfwriaeth, polisi ac ymarfer. Mae'r Arweinydd Diogelu (y Cyfarwyddwr) yn mynychu'r Bwrdd Diogelu.

# Safonau Gofal a Chymorth

**Yn Calon Cymru Fostering, rydym yn credu bod pob plentyn yn bwysig a bod anghenion, lles a buddiannau pennaf plant a phobl ifanc o'r pwys mwyaf.**

**Mae Calon Cymru Fostering yn diffinio paramedrau a disgwyliadau ein safonau ym mhob un o'n dogfennau, ond yn arbennig yn ein:**

- Llawlyfr Polisi a Gweithdrefnau.
- Ymrwymiad Gofalwyr Maeth a Chytundeb Maethu.
- Llawlyfr Gofalwyr Maeth.
- Llawlyfr i Weithwyr Cyflogedig.

**Yn Calon Cymru Fostering rydym yn credu:**

- Bod gan bob unigolyn hawl hanfodol i ddatblygu eu potensial, waeth beth fo'u profiadau bywyd blaenorol
- Bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i dderbyn gofal gan oedolion sy'n cynnig parch, consyrn ac anwyldeb
- Bod angen i oedolion barchu arwyddocâd teulu biolegol, hil, diwylliant a chrefydd y plentyn
- Bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i gyflawni'r canlyniadau gorau, yn unol â saith nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc
- Y dylai pobl ifanc gael eu paratoi'n briodol ar gyfer ymadael â gofal: gan adael eu lleoliad Calon Cymru Fostering gyda chynilion, cyrhaeddiad addysgol i gefnogi'r yrfa o'u dewis a sgiliau addas ar gyfer bod yn annibynnol
- Y dylai'r asiantaeth gael ei rheoli mewn ffordd foesegol, yn effeithiol ac yn effeithlon
- Bod yr holl staff, gofalwyr maeth ac oedolion eraill sy'n cael cyswllt â phlant drwy Calon Cymru Fostering yn gorfod derbyn archwiliadau a gweithdrefnau archwilio cefndir trwyadl

**At hyn, bydd Calon Cymru Fostering yn:**

- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol
- Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hyrwyddo yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Sicrhau bod gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu dilyn yn gadarn bob amser er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu
- Gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i nodi anghenion unigol a chanlyniadau penodol y plentyn ac yna darparu'r gofal hwnnw
- Sicrhau nad yw gofalwyr maeth yn defnyddio cosb gorfforol, eu bod yn fedrus ym maes rheoli ymddygiad ac nad ydynt yn gwneud unrhyw beth sy'n diraddio, yn iselhau neu'n sarhau'r person ifanc sy'n derbyn gofal ganddynt
- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo bob amser, drwy recriwtio, asesu, paru a darparu cymorth o ran lleoliadau

# Gwasanaethau a Ddarperir

**Mae Calon Cymru Fostering yn anelu at weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod ystod eang o leoliadau maethu'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc o bob oed. Yn Calon Cymru Fostering, rydym yn credu mai ein rôl yw cynnig gwasanaeth ategol i awdurdodau lleol er mwyn galluogi darparu opsiynau gofal maeth diogel, sicr a phriodol gan gynnwys:**

**Lleoliadau Safonol:**

Lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael eu hasesu fel rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth, a fydd yn cynnwys cyfnod byr, cyfnod hir, seibiant ac argyfwng.

**Lleoliadau i Frodyr a Chwiorydd:**

Mae'r asiantaeth yn cydnabod pwysigrwydd cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd os asesir bod hynny er eu lles gorau.

**Lleoliadau Unigol:**

Lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu fel rhai sydd angen lleoliad unigol, ni chaiff unrhyw blant eraill eu lleoli ar yr aelwyd.

**Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceiso Lloches:**

Plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches yn y DU sydd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni neu eu gofalwyr.

**Lleoliadau Rhiant/Rhieni a Phlentyn/Plant:**

Lleoliadau ar gyfer rhieni unigol neu gyplau gyda'u babanod/plant ifanc. Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd cefnogol lle gellir asesu sgiliau magu plant mewn partneriaeth â'r awdurdod lleoli.

Mae gofalwyr maeth rhiant/rhieni a phlentyn/plant yn derbyn hyfforddiant arbenigol ychwanegol ac ymweliadau bob pythefnos gan weithiwr cymdeithasol goruchwyliol. Mae rhieni hefyd yn cael mewnbwn gan weithiwr cymorth rhieni a phlant er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau magu plant.

.

**Gwasanaeth Lleoli dan Arweiniad Therapiwtig (Therapiwtig Uchel):**

Lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â lefel uchel iawn o gymhlethdod. Mae'r gwasanaeth yn darparu pecyn gofal a chymorth therapiwtig penodol trwy dîm o amgylch y plentyn. Mae lefelau cymorth i'r gofalwr maeth yn uchel ac yn cynnwys mewnbwn gan Wasanaethau Seicolegol Studio III. Mae gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn ymweld â'r gofalwr maeth bob pythefnos, ac mae gweithiwr cymorth ymroddedig a chyson yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn.

**Lleoliadau Gofal+ (Therapiwtig Isel):**

Mae'r gwasanaeth Gofal + yn 'gam i lawr' o'r Gwasanaeth Lleoli dan Arweiniad Therapiwtig sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â lefel is o gymhlethdod ond sydd eto angen cymorth seicolegol fel rhan o dîm o amgylch y plentyn.

Derbyniodd gofalwyr maeth y Gwasanaeth Lleoli dan Arweiniad Therapiwtig a Gofal + hyfforddiant arbenigol i'w harfogi â'r sgiliau angenrheidiol i gynorthwyo plant i reoleiddio emosiynau a rheoli straen.

# Y Broses Baru

**Yn Calon Cymru Fostering, rydym yn cydnabod bod pob plentyn a pherson ifanc yn unigolyn unigryw. O'r herwydd, mae pob lleoliad yn cael ei 'baru' yn ofalus er mwyn sicrhau bod y gofalwyr maeth a awgrymir yn gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc orau. Gwneir hyn drwy baru â lefel sgiliau a phrofiad gofalwyr.**

Derbynnir atgyfeiriadau i ddechrau gan y Tîm Lleoliadau, sy'n cysylltu'n agos gyda'r tîm gwaith cymdeithasol, cydweithwyr yn yr awdurdod lleol a gofalwyr maeth, i sicrhau y caiff anghenion y plentyn eu diwallu'n llawn drwy'r paru gorau posibl.

Rydym yn cymryd y penderfyniad i leoli plentyn o ddifrif ac mae pob penderfyniad i leoli yn cael ei oruchwylio gan Reolwyr Gweithrediadau Calon Cymru Fostering, er mwyn sicrhau ein bod wedi gwneud y paru gorau posibl ar gyfer y plentyn a'r gofalwr maeth. Ni fydd disgwyl byth i blant a phobl ifanc rannu ystafell wely gyda phlentyn arall oni bai eu bod yn frodyr a chwiorydd. Byddai hyn yn rhan o'r broses baru.

# Cyflenwi Gwasanaethau

## Cefnogaeth a ddarperir gan Weithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol:

Mae gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol Calon Cymru Fostering yn cydnabod, er nad oes ganddynt gyfrifoldeb rheoli achos dros y plentyn, mai eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod anghenion y plentyn a chanlyniadau personol yn hollbwysig. Cynhelir cyfarfodydd goruchwyliol misol rhwng y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a'r gofalwr maeth, (yn amlach os oes angen).

Mae cyfarfodydd goruchwyliol yn canolbwyntio ar gefnogi gofalwyr maeth i gyflawni canlyniadau i blant a phobl ifanc ac asesu materion diogelu. Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol hefyd yn yn gyfrifol am gynorthwyo'r gofalwr i ddatblygu eu gyrfa, drwy nodi hyfforddiant ac anghenion datblygu a dulliau o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y gofalwr. Mae cofnod o oruchwyliaeth ar gael i'r gofalwr maeth drwy gronfa ddata'r asiantaeth.

Mae Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol yn sicrhau eu bod yn gweld ac yn siarad â phlant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain yn rheolaidd wrth ymweld â'r cartref maethu

## Grwpiau Cymorth:

Cynhelir grwpiau cymorth gofalwyr maeth ar draws rhanbarth Calon Cymru Fostering yn rheolaidd, er mwyn galluogi gofalwyr maeth i gyfarfod a chymdeithasu â'i gilydd, rhannu syniadau am arferion da, datblygu cefnogaeth cymheiriaid a derbyn gwybodaeth gan yr asiantaeth.

## Cymorth Brys:

Mae Calon Cymru Fostering yn darparu gwasanaeth ar alwad 24/7, 365 niwrnod y flwyddyn i ofalwyr maeth, wedi'i staffio gan Weithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol Calon Cymru Fostering sydd â mynediad at Reolwr Gweithredol. Mae Uwch Reolwyr ar gael hefyd pan fo angen.

## Adolygiad Blynyddol:

Mae pob gofalwr maeth yn cael adolygiad blynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i faethu a bod eu cymeradwyaeth fel gofalwyr maeth yn briodol. Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol, gyda chefnogaeth Calon Cymru Fostering, yn sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni, a bod gofalwyr maeth yn cael cyfle i werthuso eu hymarfer a'u datblygiad, a gosod nodau a chynlluniau gweithredu newydd ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

## Polisïau a Gweithdrefnau:

Mae gan ofalwyr maeth fynediad at Lawlyfr Maethu cynhwysfawr. Mae'r Llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth, polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â phob agwedd ar faethu, a chaiff ei ddiweddaru yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau yn ddogfen ganllaw berthnasol.

## Cadw Cofnodion:

Disgwylir i'n gofalwyr maeth gadw dyddiadur dyddiol ynghylch y plentyn neu'r person ifanc sydd mewn lleoliad, er mwyn sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn gadarn a'n bod yn creu cronoleg o fywyd plentyn neu berson ifanc.

**Cefnogi Plant sy'n Maethu:**

Mae Calon Cymru Fostering yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae plant sy'n maethu'n ei chwarae mewn lleoliadau llwyddiannus. Darperir digwyddiadau a chyfleoedd i'w galluogi i ddod at ei gilydd a thrafod gyda staff asiantaeth a phlant eraill yr effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, o rannu eu cartrefi a'u teuluoedd.

**Aelodaeth Foster Talk:**

Mae holl ofalwyr a staff maethu Calon Cymru yn derbyn aelodaeth flynyddol o Foster Talk. Mae hyn yn caniatáu i aelodau gael mynediad at gyngor ynghylch materion ariannol, cyfreithiol ac yswiriant.

**Cyllid:**

Mae holl ofalwyr cymeradwy Calon Cymru Fostering yn derbyn lwfans sy'n cael ei dalu bob pythefnos drwy gydol y lleoliad.  Mae lefel y lwfans hwn yn ddibynnol ar y math o leoliad ac ar brofiad y gofalwr maeth.  Mae pob gofalwr maeth yn hunangyflogedig, ac felly'n gorfod talu treth ac yswiriant gwladol eu hunain. Gellir cael arweiniad ariannol manwl drwy dîm cyllid yr asiantaeth neu drwy Foster Talk.

**Diogelu Data:**

Rydym yn defnyddio system ddiogel wedi'i hamgryptio i anfon gwybodaeth yn allanol am bobl ifanc a gofalwyr maeth. Rydym yn cymryd Diogelu Data o ddifrif ac wedi sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwn gan gynnwys egwyddorion GDPR, er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth bersonol/sensitif ei phrosesu yn gyfreithiol ac yn ddiogel.

**Cael Hwyl:**

Rydym yn cydnabod bod gofalu am blant pobl eraill yn fusnes difrifol ac y gall fod yn heriol ac weithiau'n peri straen.  Mae Calon Cymru Fostering yn annog gofalwyr maeth i ddod at ei gilydd a chymdeithasu ac elwa o gefnogaeth gan eraill. Rydym yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd, lle gall gofalwyr gael hwyl gyda phobl debyg. Rydym hefyd yn darparu aelodaeth CADW am ddim i bob teulu maethu.

**Diogelwch yn ein Cartrefi Maethu:**

Mae gan Calon Cymru Fostering ddisgwyliadau uchel o ran ansawdd a safonau cartrefi maethu. Mae pob cartref maethu yn destun ymweliadau dirybudd rheolaidd, asesiad iechyd a diogelwch cadarn, ac mae pob gofalwr maeth wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf pediatrig. Mae gan bob cartref maethu bolisi gofal mwy diogel generig sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol. Mae gan bob plentyn a leolir bolisi gofal diogelach ac asesu risg unigol sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol neu yn dilyn digwyddiad.

# Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Mae Calon Cymru Fostering yn ymdrechu i greu diwylliant cynhwysol lle mae pob math o amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi a'i ddathlu.**

Rydym am gynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac yn gweithio i sicrhau na chaiff unrhyw blentyn neu berson ifanc, ymgeisydd, gofalwr na gweithiwr eu trin yn annheg ar sail hil, rhyw, oedran, anabledd, crefydd neu hunaniaeth. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau a chyfraniadau unigol ac yn credu mewn anelu at sicrhau cydraddoldeb i bawb.

# Cyfranogiad

**Mae ein gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a'n gweithwyr cymorth yn siarad â'r plant a'r bobl ifanc sydd yn byw gyda rhieni maeth Calon Cymru Fostering ar eu pen eu hunain yn rheolaidd.**

**Mae strategaeth cyfranogiad yr asiantaeth yn cynnwys y canlynol:**

- Cymorth i ddilyn hobi neu ddiddordeb.
- Gwaith unigol neu grŵp, gan gynnwys gweithgareddau strwythuredig.
- Gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer plant sy'n maethu.
- Mynediad at sefydliadau cenedlaethol.
- Cymorth ymarferol gyda thrafnidiaeth neu fynediad at wasanaethau / cyfleusterau allanol.
- Cyswllt dan oruchwyliaeth â theuluoedd.
- Gwaith taith bywyd.
- Paratoi ar gyfer annibyniaeth.
- Darparu arweiniad a chefnogaeth therapiwtig i ofalwr maeth y plant.

Mae llais y plentyn/person ifanc a'u cyfranogiad yn natblygiad parhaus Calon Cymru Fostering yn hollbwysig. Mae rôl y gweithiwr cymorth yn cynnwys canolbwyntio ar waith cyfranogi sy'n cynorthwyo'r asiantaeth i ddatblygu gwasanaethau. Rydym yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar bolisïau, maen nhw'n rhoi eu barn am ddatblygiadau ar gyfer yr asiantaeth ac yn ymgysylltu ag ymgynghoriadau a chyfranogiad o dan arweiniad pobl ifanc. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn rheolaidd ar baneli cyfweld ar gyfer staff newydd ac yn darparu cwestiynau i ddarpar ofalwyr maeth pan gânt eu cyflwyno yn y panel.

Mae'r asiantaeth yn cynhyrchu cylchlythyr sy'n cynnwys mewnbwn gan blant a phobl ifanc. Dyma le i'n pobl ifanc ddangos eu talentau ac mae'n cynnwys eu gwaith celf, cerddi, storïau, jôcs a phosau ac mae'n tynnu sylw at unrhyw gyflawniadau.

# Iaith a Chyfathrebu (gan gynnwys Cymraeg)

**Mae Calon Cymru Fostering wedi parhau i fod yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion unigol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn amlwg yn y gefnogaeth a ddarparwyd gan nifer o'n gweithwyr cymdeithasol a'n rheolwyr sy'n gallu cyfathrebu mewn nifer o ieithoedd gan gynnwys Cymraeg, Pwyleg a Bengali.**

Fel sefydliad, rydym hefyd wedi cael mynediad at wasanaethau dehongli a chyfieithu. Mae gan yr asiantaeth nifer o aelodau staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl sydd wedi ein galluogi i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc a goruchwylio gofalwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Calon Cymru Fostering yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithredu a datblygu'r cynnig gweithredol. Oherwydd amrywiaeth y grŵp staff, mae hyn wedi bod yn hylaw.